**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

11 Tachwedd 2024

Annwyl Lynne a Jane,

Yn ein cyfarfod ar 14 Hydref, gwnaethom ystyried llythyr gan Gymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru a anfonwyd atoch, gyda chopi wedi'i anfon atom i'n sylw. Rydym yn ysgrifennu i fynegi ein siom gyda'r penderfyniad i atal datblygu'r TGAU Iaith Arwyddion Prydain (BSL) Yn Arbennig i Gymru a gofyn am eglurder ynghylch pam y gwnaed y penderfyniad hwn.

Mae datblygiad TGAU BSL yng Nghymru yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol ymlaen o ran cydraddoldeb a sicrhau bod addysg yng Nghymru yn fwy cynhwysol. Caiff ei ystyried yn ddatblygiad pwysig, nid yn unig i ddisgyblion allu ennill cymhwyster yn eu hiaith eu hunain, ond hefyd o ran codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a gwella sgiliau gweithlu'r dyfodol.

Rydym yn cefnogi galwad NDCS i hyn gael ei ystyried ymhellach. Hoffem ragor o wybodaeth am yr heriau a nodwyd fel y rhesymau dros y penderfyniad fel y gellir archwilio hyn gyda nhw a rhanddeiliaid eraill sydd wedi bod yn ymgyrchu ac yn gweithio i wireddu hyn.

Byddem yn gwerthfawrogi eglurder ynghylch y rhesymu a'r heriau sydd wedi codi a pha gamau a gafodd eu hystyried i oresgyn y materion hyn. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich

ymateb cyn sesiwn graffu'r Pwyllgor gyda Jane ar Anabledd a Chyflogaeth ar 25 Tachwedd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru / Welsh Parliament